

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL LLECHRYD

2016 – 2017

ADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN I RIENI / GWARCHWEIDWAID

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Mae'n bleser ac anrhydedd i mi fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd. Mae'r broses newydd o gategoreiddio ysgolion wedi nodi fod ysgol Llechryd yn ysgol werdd. Wrth ni edrych yn ôl ar 2016 – 17 gwelwn fod yr ysgol yn parhau i gynnal y safonau uchaf o safbwynt gwaith cwricwlaidd.

Felly mae'n bleser i ddiolch i'r Pennaeth, yr athrawon, cynorthwyr dysgu, staff ategol, y rhieni / gwarcheidwaid ac wrth gwrs, yn ogystal â'r disgyblion am lwyddiant cyson yr ysgol. Mae'n amlwg fod y weledigaeth yr ysgol "O'r fesen fach i'r gangen uchaf, anelwn am ragoriaeth" yn parhau i ddylanwadu'n bositif ar y disgyblion ac yn cael effaith ar bawb sydd ynghlwm â'r ysgol.

Mae gan yr ysgol dim effeithiol a gweithgar o atharwaon a chynorthwyr sy'n cynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cefnogi disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Hefyd mae gan yr ysgol aelodau o staff ategol sy'n cefnogi gwaith ddarparu y cyfleoedd gorau i'r disgyblion sef gofalwraig a glanhauwraig, clerccinio, cynorthwydd Clwb Bore a chynorthwyr Clwb Hwyl a Sbri, a chogyddes.

Mae'r gofynion ar gyfer yr angen I gynnal Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr wedi newid. Ni fu galw dros gynnal cyfarfod o'r Llywodraethwyr gyda'r Rhieni yn unol ag adran 94 o Deddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru 2013) yn ystod y flwyddyn addysgol.

Newidiadau i gyfarfodydd Blynyddol y Rhieni / Llywodraethwyr

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:-

(i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;

(ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;

(iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);

(iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny:-

(a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;

(b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;

(c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;

(ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;

(d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;

(dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

Enw'r Clerc i'r Llywodraethwyr – Pauline Lucas, Adran Addysg Cyngor Sir Cereidigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

Cadeirydd y Llywodraethwyr – Mr Bryan Rees, Dolafon, Llechryd, Aberteifi, Ceredigion. SA43 2NL

Trefniadau etholiad nesaf y Corff Llywodraethol – mi fydd yr Awdurdod Addysg a'r ysgol yn hysbysu rhieni / gwarcheidwaid am drefniadau unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol a threfniadau etholiadau.

Aelodaeth y Corff Llywodraethu:

Enw	Categori	Diwedd tymor
Haydn Lewis	Awdurdod Lleol	04/05/17
Clive Davies		09/05/2021

Bryan Rees Cadeirydd	Awdurdod Lleol	24/04/2021
Nicola Redmond	Cymunedol	31/05/19
Melanie Williams	Cymunedol	28/05/19
James Whittall	Rhiant	01/11/18
Louise James	Rhiant	28/01/2021
Gwag	Rhiant	/
Susan Pinnington	Rhiant	05/05/19
Carys Lloyd-Jones	Athrawes	05/05/2020
Meinir Lewis	Pennaeth	Parhaol

Cyllid: Gweler Atodiadau

Sut mae'r ysgol yn defnyddio'r arian a dderbynir:

- Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol er mwyn sicrhau y profiadau addysgol gorau i'r disgyblion ac I sicrhau adnoddau addas ar eu cyfer. Cryfder y trefniant presennol yw sicrhau ein yn gallu cynnal tri dosbarth am dri ddiwnod gyda'r cyllid sydd ar gael.
- Derbyniwyd cyllid ychwanegol I dargedu llythrennedd a rhifedd. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn diwallu anghenion disgyblion penodol, trefnwyd adnoddau a staff ychwanegol I gefnogi a chodi safonau yn y meysydd yma.

Rhoddion:

- Derbyniwyd cyfraniadau hael gan y Gymdeithas Rieni. Gwerthfawrogn yn fawr iawn.

Lwfansau neu gynhaliaeth i'r Corff llywodraethu:

- Costau teithio y Llywodraethwyr – ni dalwyd unrhyw gostau i'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2016 -17. Dymunaf ddiolch i'm cyd lywodraethwyr am roi eu gwasanaeth yn hollol wirfoddol er budd a lles yr ysgol.

Presenoldeb

Sylwebaeth am bresenoldeb yr ysgol

Rydym yn bles gyda chyfartaledd presenoldeb yr ysgol. Gosodwyd targedau gan y llywodraethwyr am y dair mlynedd nesaf er mwyn parhau i wella presenoldeb.

Gwella presenoldeb:

Mae'r ysgol yn dilyn camau pendant i leihau absenoldebau. Mae'r ysgol yn cysylltu gyda rhieni / gwarchweidwaid lle mae lefel presenoldeb yn isel neu'n anghyson.

Targedau ar gyfer presenoldeb:

Presenoldeb ar gyfer y flwyddyn addysgol 2016 / 17 --- 95%

Disgyblion sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6:

Mae disgyblion yn trosglwyddo fel arfer I Ysgol Uwchradd Aberteifi. Mae gan yr ysgol bartneriaeth bositif gyda'r ysgolion Uwchradd ac yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol. Dymunwn yn dda i'r saith o'n ddisgyblion eleni.

Meithrin cysylltiadau rhwng yr Ysgol a'r Gymuned:

Y mae'r ysgol yn un o brif sefydliadau'r pentref ac yn rhan annatod o'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o adnoddau lleol gan gynnwys y Parc Chwarae, Neuadd y Cwrwgl, a'r Eglwys. Bu'r ysgol ar nifer o ymweliadau addysgol gan gynnwys a.y.y.b. Bu'r ysgol yn perfformio i fudiadau lleol ac mae cefnogaeth dda iawn.

Cynhaliwyd gweithgareddau er mwyn hybu dealltwriaeth o godi arian at achosion da yn ystod y flwyddyn. Casglwyd cyfanswm o dros £1,300 ar gyfer Plant Mewn Angen; Pabi Coch, UNICEF;

Cymdeithas Rieni ac Athrawon yr Ysgol

Hoffwn ddiolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon a holl gyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas Rieni ac athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn ac yn llwyddo i gynnal amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at brynu adnoddau ac i drefnu achlysuron cymdeithasol gyda naws deuluol Gymreig iddynt.

Cynhaliwyd gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Ffair Haf a Ffair Aeaf, Cyngherddau, Disgo, Bore Coffi, Bore Cymdeithasol a Thaith Gerdded Noddedig. Bydd adroddiad llawn o'r gweithgareddau a'r arian a godwyd yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni yn nhyrnor yr Hydref.

Cyfarfodydd Rhieni / gwarcheidwaid:

Mae yna bartneriaeth dda yn bodoli gyda'r rhieni. Yn ystod y flwyddyn trefnir;

- Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

- Noswaith agored tymor yr Haf a gwahoddiad i'r rhieni / gwarcheidwaid i ddod i'r ysgol ar ôl derbyn adroddiadau eu plant ym mis Gorffennaf.
- Gwahoddiad i rieni / gwarcheidwaid fynychu gwasanaethau arbennig.
- Gwahoddiad i fabolgampau'r ysgol.
- Cyfarfod ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid plant y meithrin sydd am gychwyn yn yr ysgol.
- Cyfarfod rhwng rhieni / gwarcheidwaid plant sy'n derbyn cefnogaeth a'r athrawon arbenigol.
- Mae'r pennaeth yn nodi ar bob llythyr "os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith"

Defnydd o'r adeilad / campws:

Cyfarfod rhieni ac athrawon yr Ysgol, rhai timau pêl-droed, gwersi Cymraeg i oedolion gyda gofal plant, Cyfarfodydd Cenedlaethol yr Urdd, Eisteddfod.

Cysylltiadau gyda'r heddlu;

Mae swyddogion o'r heddlu yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac yn cyfrannu yn bositif at weithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r heddlu yn trafod gyda'r Cynghorhau'r Ysgol. Yn ystod y flwyddyn mae'r heddlu'n cydweithio gydag Adran Diogelwch y Ffyrdd sy'n ddarparu gwersi beicio diogel i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ddiolchgar am eu cydweithrediad.

Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol (ar ôl arolygiad)

Mae'r ysgol wedi gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn dilyn adroddiad Estyn ym Medi 2013. Dyma grynodeb o'r datblygiadau:

A1: Codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion yn eu gwaith ar draws y pynciau	Parhau i ddatblygu safonau: ers yr Arolwg, mae'r Ysgol wedi rhoi strwythur pendant mewn lle ac yn defnyddio cynllun y Sir; canlyniadau diwedd CA2 a thystiolaeth yn dangos bod cynnydd wedi digwydd.
A2: Sicrhau cyfleoedd pellach i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig er mwyn gwella eu gwaith	Parhau i ddatblygu safonau: adborth ysgrifenedig yn cynnwys sylwadau cadarnhaol a ffurfiannol (gwella) yn gyson; cyfleoedd penodol yn cael eu clustnodi ar gyfer gweithredu ar y sylwadau / gwella gwaith.
A3: Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch	Wedi mynd i'r afael a'r materion iechyd a diogelwch.

A4: Sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd	Wedi sicrhau bod yr Ysgol yn cwrdd a'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd; pob plentyn sy'n bresennol yn yr ysgol yn bresennol yn y cydaddoli.
A5: Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach i herio'r ysgol am safonau	Aelodau Corff Llywodraethol yn datblygu gwell adnabyddiaeth o'r ysgol ac o'r herwydd yn monitro'n fwy effeithiol; aelodau'r corff yn monitro ac yn adrodd yn ôl i'r corff lawn; Llywodraethwyr yn derbyn hyffordiant ac yn datblygu rôl fwy allweddol i'r Corff Llywodraethol ac yn cyfoethogi'r hunanarfarniad o'r Ysgol.

Hunanarfarnu a Chynllun Datblygu Ysgol:

Prif flaenoriaethau'r ysgol	Effaith / canlyniad
Datblygu ymhellach gwaith gwahaniaethol yng NghA2 er mwyn datblygu cyfleoedd i ddisgyblion i weithio'n annibynnol;	Arsylwadau gwersi'n dangos bod disgyblion yn gweithio'n mwy annibynnol ar dasgau;
Datblygu'r gallu i gymhwyso Mathemateg ar draws y cwricwlwm gyda'r pwyslais ar resymu a datrys problemau trwy'r Ysgol;	Cynnydd a chyflawniad disgyblion yn gwell; tystiolaeth ar draws yr Ysgol yn dangos yng gnwaith y disgyblion ac arsylwadau gwersi; gwelliant yn y sgorau Profion Rhesymu yn dangos bod disgyblion yn cyflawni mwy na 95+;
Cytuno ar weledigaeth strategol ac ymgorffori Fframwaith Cymhwysol Digidol ar draws yr Ysgol. Ymgorffori'r weledigaeth a gwerthoedd trwy eu hymarfer dyddiol a thrwy eiriolaeth barhaus.	Bu'r weledigaeth yn cael ei chyfleu yn ystod cyfarfodydd staff. Gweithredir strategaethau ac ymriadau er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei nod o, 'anelu am ragoriaeth'. Angen barhau ar hyn trwy cydweithio ag ystod o randdeiliaid i adolygu a sefydlu gweledigaeth a nodau'r ysgol.
Defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol er mwyn cau'r bwch rhwng perfformiad disgyblion PYD / dim PYD	

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu agweddau y Cynllun Datblygu Ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol – gellir cael copi llawn o'r CDY gan y pennaeth.

Gwelliannau a osodwyd gan y Corff Llywodraethol ynglŷn â pherfformiad y disgyblion:

Targedau ar gyfer y dair mlynedd nesaf:

Gweler y targedau ar gyfer nifer y disgyblion fydd yn cyrraedd deilliant 5 neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 neu'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 am y dair mlynedd nesaf. Mae'r ysgol yn gosod y targedau yma yn sgil y wybodaeth bresennol sydd gennym am y disgyblion yn ôl asesiadau athrawon blyneddol.

Yn ogystal â hyn rydym yn gosod lefel o her ar gyfer y dyfodol er mwyn codi safonau yn barhaus.

	Haf 2017	Haf 2018	Haf 2019
Cyfnod Sylfaen	100%	100%	100%
Cyfnod Allweddol 2	100%	100%	100%

Sylwebaeth

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o safbwynt asesiadau'r disgyblion yn y ddau Gyfnod Allweddol.
- Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu yn bositif ar y targedau heriol â osodwyd pob blwyddyn.
- Yn dilyn asesiadau cyson a nifer o brofion nodir pa lefel / deilliant y mae pob plentyn yn cyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn. Ceir cysylltiad agos rhwng athrawon er mwyn cymedroli lefelau ac adnabod y ffordd ymlaen i'r plentyn unigol.
- Mae plant yn derbyn targedau cyson yn laith, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Fel ysgol rydym yn anelu i sicrhau bod 100% o blant yn y Cyfnod Sylfaen a 100% o blant yn Cyfnod Allweddol 2 yn cyrraedd y lefel / deilliant disgwyliedig (deilliant 5 neu'n uwch ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 neu'n uwch ar gyfer CA 2).
- Rhoddir adroddiad manwl i bob rhiant ar ddiwedd y flwyddyn a bydd nosweithiau agored cyson a chyfle i drafod yr adroddiad diwedd y flwyddyn.

Diarddel Plant

Ni waharddwyd yr un disgybl yn ystod y flwyddyn addysgol 2016 -17

Adolygu Polisiau a strategaethau'r ysgol:

Mae'r ysgol yn adolygu polisiau yn gyson er mwyn sicrhau y ddarpariaeth orau ar gyfer y disgyblion. Yn ystod 2016 -17 adolygwyd polisiau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, diogelu plant, bwlio, a rhai agweddau cwricwlaid. Mae copiau o'r polisiau ar gael o'r ysgol neu ar y wefan. Mae'r rhestr o'r polisiau sydd wedi eu hadolygu yng nghofnodion y llywodraethwyr.

Gweithredu ar ôl adolygu polisiau:

Mae'r datblygiadau yn cael eu monitro'n gyson yn y cyfarfodydd tymhorol. Mae staff o'r ysgol wedi derbyn hyfforddiant pellach ar ddiogelu plant. Hoffwn ddiolch i bawb am gydweithio gyda'r ysgol i weithredu'r polisiau yma er lles pawb.

Chwaraeon a Gweithgareddau Allgyrsiol:

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon. Mae'r disgyblion yn meithrin sgiliau a phrofiadau o'r Derbyn i fyny at Flwyddyn 6.

Mae yna raglen allgyrsiol eang sy'n anelu at foddio diddordebau holl ddisgyblion yr ysgol. Cynhelir Clwb yr Urdd yn wythnosol lle mae staff yr ysgol yn gwirfoddoli i gynnig gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys chwaraeon, celf, a gweithgareddau amrywiol.

Mae cysylltiad cryf yn bodoli rhwng yr ysgol â mudiad yr Urdd ac mae disgyblion yn cael profiadau cyfoethog wrth ddilyn rhaglen o weithgareddau'r flwyddyn.

Mae staff yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer yr eisteddfodau cylch, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn profi llwyddiant mewn amrywiol feysydd ar lefel genedlaethol.

Bwyta ac yfed yn iach:

Mae'r ysgol yn hybu iechyd y disgyblion ac yn awyddus eu bod yn magu patrymau iachus o fwyta ac yfed ac yn rhan o strategaeth "Ysgolion Hybu Iechyd" Ceredigion. Enillwyd Cam 3 gyda'r Cynllun Ysgolion Iach Ceredigion ac mae'r Ysgol yn gweithio tuag at Cam 4.

Mae cinio ysgol iachus yn cael ei ddarparu yn ddyddiol ac anogir disgyblion i fwyta pecynnau bwyd iach i ginio. Mae'r siop ffrwythau ffres ar agor yn ddyddiol gan y Ffrindiau Ffit. Mae digon o ddŵr ar gael i'r disgyblion, anogir pob disgybl i ddod â photel blastig bwrpasol ar gyfer ei llenwi yn ystod y dydd.

Gwobr Platiniwm Eco-Sgolion:

Mae gan yr Ysgol Cyngor Eco sy'n cael ei ethol ym mhob mis Medi ac mae'r aelodau'n brysur yn sicrhau ein bod yn Ysgol gynladwy sy'n parchu ac yn ymdrechu i wella amgylchedd yr ysgol. Enillwyd gwobr Platiniwm yng nghynllun Eco-Sgolion.

Gwobr Masnach Deg

Mae Ysgol Llechryd yn ymroi i gefnogi Masnach deg lle bynnag y bo modd gwneud hyn drwy :-

Sicrhau bod Masnach Deg yn rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol;
Ddefnyddio te, coffi a siwgr Masnach Deg yn Ystafell yr Athrawon ac mewn cyfarfodydd y Corff Llywodraethol;
Defnyddio cynnyrch Masnach Deg yng ngwersi Technoleg Bwyd;
Dewis peli Masnach Deg pan yn adnewyddu rhai newydd;
Gofyn i'r cwmni arlwyio gynnwys mwy o gynnyrch Masnach deg yn eu cyflenwadau;
Gynnwys Masnach Deg yng Ngweithgareddau Cwricwlaidd bob Dosbarth;
Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael rhan o'r wisg ysgol wedi ei wneud gan ddefnyddio cotwm Masnach deg;
Defnyddio cynnyrch masnach deg yn y siop Ffrwythau;
Hybu Masnach Deg yn y Gymuned, yn enwedig yn ystod pythefnos Masnach Deg.

Cam cyntaf i'r Wobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau (GYPH) Unicef y DU. - 'Adnabyddiaeth o Ymrwymiad' ROC:

Mae Cytundeb y Cenedloedd Unedig yngylch Hawliau Plant (CCUHP) yn ddogfen ryngwladol sy'n diogelu hawliau a chyfrifoldebau pawb o dan 18 oed. Nod y CCUHP yw cydnabod hawliau plant a gofalu bod heddwch, urddas, goddefgarwch, rhyddid, cydraddoldeb a chydgefnogaeth yn themâu amlwg yn eu bywydau wrth iddynt aeddfedu.

Mae'r CCUHP yn cynnwys 54 erthyl. Mae 42 ohonynt yn cynnwys hawliau ac mae 11 yn rhoi gwybodaeth am sut y dylai llywodraethau a phartneriaid gydweithio i orfodi'r cytundeb. Mae'r hawliau dan sylw yn y CCUHP yn ymwneud â phob agwedd o fywyd a theulu plant a phobl ifanc gan gynnwys hawliau dynol a ryddid, gofal teulu, iechyd sylfaenol a lles, addysg, hamdded a bywyd diwylliannol a champau diogelu penodol.

Mae hawliau yn eiddo i bawb. Maent yn hawliau sylfaenol sy'n eiddo i bob bod dynol, waeth beth yw ein gwaith. Mae hawliau yn galluogi i ffynnu, gyrraedd ein llawn botensial ac i gyfrannu at gymdeithas. Mae hawliau yn cynnwys llawr o agweddau ar fywyd bob dydd, o'r hawl i gael bwyd, cysgod, addysg ac iechyd hyd at yr hawl i ryddid meddwl, crefyddol a hunan fynegiant.

Ein bwriad yma yn Ysgol Gynradd Llechryd yw darparu'r addysg gorau poibl i'r plant yn ein gofal. Er mwyn llwyddo mae'n bwysig datblygu partneriaeth gryf rhwng y plant, yr athrawon a'r cartref gyda phob un ohonynt yn cydweithio er lles y plentyn.

Mae Ysgol Gynradd Llechryd wedi ennill Gwobr Cam Cyntaf Ysgol Sy'n Parchu Hawliau ROC gan Unicef UK am wreiddio egwyddorion Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn ei hethos a'i chwricwlwm.

Mae addysgu am hawliau'r plant yn gwreiddio ym mhopeth y mae'r ysgol yn ei wneud ac wedi rhoi hwb i hunan-barch y disgyblion a gwella harmoni yn y dosbarth ac ar yr iard chwarae.

Mae'r erthyglau hawliau'r Ysgol i'w gweld ar draws yr ysgol i amlygu hawliau a sut dylai plant ymddwyn fel nad ydynt yn gwrthod hawliau pobl eraill hefyd.

Mae Mrs Carys Lloyd-Jones wedi gweithio'n agos gyda staff a disgyblion i sicrhau bod mewnbwn yr holl blant yn cael ei gynnwys wrth wneud penderfyniadau yn yr ysgol.

Fe fyddwn ni'n anelu at Lefel 1 and ac wedyn 2.

Newidiadau i Lawlyfr yr Ysgol:

Mae'r llawlyfr yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dymhorol. Mae copi o'r llawlyfr ar gael yn yr ysgol neu drwy law'r pennaeth. Bu newidiadau i gynnwys y llawlyfr yn ystod y flwyddyn gyfredol er mwyn gwella'r diwyg.

Dyddiadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn

(gweler atodiad 2)

Diwrnodau cau HMS

(gweler atodiad 2)

Amserau Sesiynau

	Cyfnod Sylfaen	CA2
Dechrau'r dydd	9:00	9:00
Egwyl	10:15-10:45	10:15 – 10:45
Cinio	11:55	11:55
Dechrau'r prynhawn	1:00	1:00
Egwyl y prynhawn	2:15 – 2:30	
Diwedd y dydd	3:30	3:30

Cwricwlwm a threfniadaeth addysgu:

Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol yn bwysig iawn i ni. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrrd â'r holl ofynion statudol. Mae'r athrawon yn parhau i adolygu'r cwricwlwm yn sgil datblygiadau newydd. Mae pwyslais mawr yn cael ei osod ar ddatblygu sgiliau

cyfathrebu, sgiliau rhif, sgiliau TGCh a sgiliau meddwl. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n fanwl ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r newidiadau i'r cwricwlwm o Fedi 2015 ymlaen. Mae'r Fframwaith yn cael ei gweithredu'n llawn drwy'r ysgol a cheir adroddiadau i rieni yn nodi cynnydd y disgyblion yn y meysydd yma.

Anghenion Dysgu Ychwanegol:

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r ysgol yn adolygu y polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i ddisgyblion.

Mrs Nicky Redmond yw'r llywodraethwraig sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Disgyblion sydd ag anableddau:

Mae campws yr ysgol wedi ei addasu'n gyson er mwyn rhoi mynediad rhydd i ddisgyblion sydd ag anableddau, gosodwyd rampiau a chanllawiau i hybu mynediad i ddosbarthiadau a llwyddwyd drwy gynllunio gofalus i blethu plant ag anableddau yn llawn i gwricwlwm yr ysgol.

Categori iaith yr ysgol – Cymraeg

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol:

- Defnyddir y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel y brif iaith ym mhob rhan o waith cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol. Cyflwynir Saesneg i ddisgyblion ym Mlwyddyn 3.
- Y Gymraeg yw iaith gyfathrebu naturiol yr ysgol.
- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ysgol, hyrwyddir y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Ysgol Llechryd.
- Mae'r ysgol yn sicrhau drwy gynllunio gofalus fod yna barhad a datblygiad cyson yn y profiadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.
- Mae disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd lle mae cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Trefniadau a chyfleusterau toiled:

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau yr Awdurdod Addysg.

Cynnal a chadw'r adeiladau:

Newidwyd y drws ochr. Ailosodwyd y gysgodfan beiciau / sgwterau o Ysgol Dyffryn Teifi.

Diogelwch:

Rhaid parcio'n ofalus ar y strydoedd a pheidio parcio yn yr encilfa nac ar y gwair.

Mae diogelwch yn bwysig iawn i'r llywodraethwyr, y Cyngor Ysgol a'r staff. Rhaid bod yn ofalus a pharchu eraill.

Datblygiadau diogelwch yr adeilad – mae'r ysgol wedi adnewyddu'r ffens sy'n rhan o ffin yr ysgol. Mae hyn wedi gwella diogelwch y disgyblion ac yn atal mynediad i ddieithriad.

Gobeithio eich bod wedi cael budd o ddarllen am ddatblygiadau'r ysgol brysur hon.

Cofiwch gysylltu gyda'r Pennaeth os ydych am wybodaeth bellach am ddatblygiad yr ysgol.

Cynghorydd Bryan Rees

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Atodiad:

Llechryd 2323	£	
CYFLAWNIAD ARIANNOL 2016/17		FINANCIAL PERFORMANCE 2016/17
Mae'r Awdurdod Addysg Lleol newydd gau'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Dangosir isod sut y daethpwyd at y cyllid a benodwyd i'r ysgol.		The Local Education Authority has recently finalised the closure of accounts for the year ended 31 March 2017. The total funding for the the school has been derived as set out below.
Dyranriad Cyllid Gwreiddiol yn ôl Fformiwla	206,535	Formula Funding Initial Allocation
Newid yn Niferoedd Disgyblion	0	Change in Pupil Numbers
AAA	711	SEN
Arwynebedd	0	Floor Area
Y Dreth Annomestig	0	National Non-Domestic Rates
Cau Ysgol	0	School closure
Addasiad Arall	0	Other Adjustment
Dyranriad y Gronfa wrth Gefn heb ei Defnyddio	92	Allocation of Unutilised Contingency
Dyranriad Cyllid Diwygiedig 2016/17 yn ôl Fformiwla	207,338	Revised 2016/17 Formula Funding Allocation
Gwariant Net	205,840	Net Expenditure
Amrywiant	1,498	Variance
Llog ar y Gweddillion	0	Interest on Balances
Gwarged / (Diffyg) - 1 Ebrill 2016	10,872	Surplus / (Deficit) - 1 April 2016
Gwarged / (Diffyg) - 31 Mawrth 2017	12,370	Surplus / (Deficit) - 31 March 2017

Financial Performance 2016/17 / Cyflwyniad Ariannol 2016/17

Llechryd
2323

£

£

Employee Costs

Teacher Costs
Teaching Assistant Costs
Caretaking Costs
Administrative Officers
Supervisors Costs
Supply Teacher Costs
Other Employee Costs

133,791
34,331
2,767
0
845
6,604
224

TOTAL EMPLOYEE COSTS

178,562

Premises Costs

Repair and Maintenance
Grounds Maintenance
Energy Costs
General Rates
Water Charges
Cleaning Supplies and Services

2,796
658
5,093
1,944
893
6,536

TOTAL PREMISES COSTS

17,920

Transport Costs

Direct Transport Costs
Travelling Costs

0
0

TOTAL TRANSPORT COSTS

0

Supplies and Services

Teaching Resources
ICT Resources
Catering Costs
Service Level Agreements
Photocopying Costs
Other Supplies and Services

3,560
4,199
11,860
4,098
2,457
1,467

TOTAL SUPPLIES AND SERVICES

27,641

GROSS EXPENDITURE

224,123

Less: INCOME

Parental/PTA Income
Grants
Other Income

-6,183
-12,100
0

TOTAL INCOME

-18,283

NET EXPENDITURE

205,840

Funding Available

Formula Funding 2016/17
Balance b/f 1 April 2016

207,338
10,872

218,210

NET VARIANCE

12,370

INTEREST

0

TOTAL 16/17 SURPLUS

12,370

Costau Gweithwyr

Costau Athrawon
Costau Cynorthwyywyr Dysgu
Costau Gofalwyr
Swyddogion Gweinyddol
Costau Goruchwylwyr
Costau Athrawon Cyflewni
Costau Gweithwyr Eraill

CYF. COSTAU GWEITHWYR

Costau'r Adeilad

Cynnal a Chadw
Cynnal a Chadw'r Tir
Costau Ynni
Trethi
Costau Dŵr
Nwyddau a Gwasanaethau Glanhau

CYF. COSTAU'R ADEILAD

Costau Trafnidiaeth

Costau Trafnidiaeth
Costau Teithio

CYF. COSTAU TRAFNIDIAETH

Adnoddau Dysgu

Adnoddau TGCh
Costau Arlwyo
Cytundebau Lefel Gwasanaeth
Costau Llungopïo
Nwyddau a Gwasanaethau Eraill

CYF. NWYDDAU A GWASANAETH

GWARIANT GROS

Wedi'i Leihau :INCWM

Cyfraniadau Rhieni/CRhA
Grantiau
Incwm Arall

CYFANSWM YR INCWM

GWARIANT NET

Cyllid ar Gael

Cyllid yn ôl Fformiwla 2016/17
Gweddill c/d 1 Ebrill 2016

AMRYWIANT NET

LLOG

CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN

2016/17

RHEOLAETH LEOL YSGOLION
 LOCAL MANAGEMENT OF SCHOOLS
 Monitro Cyllidol / Financial Monitoring
 2016/17

Llechryd
 2323

Cyllid yn ôl Fformiwlâu / Formula Funding

£

Cyllid yn ôl Fformiwlâu / Formula Funding		206,535
Newid yn Nifer y Disgyblion / Change for Pupil Numbers		0
Addysg Arbennig / Special Needs		711
Arwynebedd / Floor Area		0
Y Dreth Annomestig / NNDR		0
Cau Ysgol / Closed School		0
Eraill / Others		0
Cronfa wrth Gefn heb ei Defnyddio / Unutilised Contingency		92

Dyranriad Cyllid Diwygiedig yn ôl Fformla
 Revised Formula Funding Allocation

207,338

Cyflawniad Ariannol / Financial Performance

Gwariant Net/Net Expenditure		205,840
Amrywiad/Variance	2016/17	1,498
	Cyllid wrth gefn c/d 31/3/16	
	Reserves b/f 31/3/16	10,872
	Llog ar y Gweddillion 2016/17	
	Interest on Balances 2016/17	0

CYFANSWM WRTH GEFN 31/3/17

*NET FUNDS AVAILABLE 31/3/17

12,370

Gwariant Net a gytunwyd gan y Pennaeth ar:
 Net Expenditure as Agreed with Headteacher on:

Llofnod Cynrychiolydd yr Awdurdod
 Signature of Authority's Representative



